

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 155 Rhif 26 Mehefin 30, 2022 50c.

## Cyfarch a chroesawu

Annwyl gyfeillion.

Braint fawr i mi, yn enw eglwysi'r cyfundeb, yw cael eich cyfarch a'ch croesawu i Gyfundeb Gorllewin Sir Gaerfyrddin, i ddathlu Undeb 150. Mi fydd y gweithgareddau yn cael eu cynnal yng nghanolfan Halliwell, ar gampws Prifysgol y Drindod Dewi Sant ar 7-9 Gorffennaf eleni. Bydd yr oedfa bregethu er hynny yng nghapel hynafol Heol Awst, lle cynhaliwyd yr Undeb ym 1872.



Mae'n debyg bod yr Undeb wedi cael cartref i'r Cyfarfodydd Blynyddol yng Nghaerfyrddin, yn amlach nag yn unrhyw le arall yng Nghymru. Dyma fydd yr wythfed tro i eglwysi'r fro estyn eu croeso cynnes. Gallaf ar ran eglwysi heddiw, fynegi yr un croeso yn yr un geiriau a'r Parchedigion E. Keri Evans a J. Dyfnallt Owen, gan mlynedd yn ôl, yn eu croeso i'r hanner canmlwyddiant, 'eithr ni fynnent, er dim, fod yn ail i'r tadau yn eu croeso cywir a chynnes i chwi.'

Fel un fydd wedi bod yn rhan o'r pedwar Undeb diweddera yng Nghaerfyrddin, ac a oedd yn rhan o gyflwyniad yr ifanc i ddathlu'r



canmlwyddiant, gyda chapel Heol Awst yn orlawn, dan gyfarwyddyd Jim Parcnest, a hynny ar thema'r gân 'gall dwy law, dau lygad, dwy droed ddim gweld a gwireddu'r gobethion i gyd, ond pan dry rheini'n fyw, cawn weld y dydd.' Rydym yn edrych ymlaen at eich gweld yn ymuno â ni yng ngweithgarwch Undeb150 yng Nghaerfyrddin eleni. Mi fyddai wedi bod yn anodd i'n cynfamau a'n cyndeidiau ym 1872 amgyffred ein sefyllfa ni heddiw. Mi fyddwn yn edrych yn ôl i'r dechreuadau, ond yn bwysicach mi fyddwn yn edrych ymlaen yn obeithiol i'n dyfodol gyda chymorth technoleg ein dydd, drwy'r cyflwyniad nos Iau a'r gweithgareddau eraill.

Rwy'n dyfynnu eto o eiriau'r croeso ganrif yn ôl, 'croesawu'n serchog holl aelodau'r Undeb – yn chwirydd, gweinidogion, lleygwyr, a myfyrwyr' ond hyd y gwelaf i yn rhestr swyddogion y gwahanol bwyllgorau (hyd yn oed pwyllgor bwyd) a rhaglen y gweithgareddau, dim ond un wraig gafodd gyfle i gyfrannu bryd hynny. Yn Undeb 150 yng Nghaerfyrddin, gwraig o'n plith, y Parchedig Beti Wyn James fydd y Llywydd, a dymunwn yn dda iddi.

Mi fydd Undeb 150 yn ŵyl ac yn cloi ar y Sul wedi'r gynhadledd, gyda gweithgarwch sydd wedi ei gynnal yn y cyfundeb ers nifer o flynyddoedd, sef Gŵyl y Sul Sbsial, a hynny yng nghwmni Huw Edwards eleni.

Felly croeso mawr i Undeb150 a maddeuwch ddyfyniad o 1922 eto, ond yr un yw'n teimladau, 'dymunwn i'ch ymweliad fod yn godiad calon ym mhob rhyw fodd, a boed yr atgo'n felys wedi yr elo'r Ŵyl heibio.'

Yn gywir a phob bendith,

Tom T. Defis  
Cadeirydd, ar ran Pwyllgor Lleol  
Undeb 150

## Sefydlu



Llun gan Tudur Jones

Llongyfarchiadau mawr i'r Parchg Dylan Rhys ar gael ei sefydlu yn weinidog i'r Arglwydd Iesu Grist yn eglwysi'r Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr a'r Tabernacl, Porthcawl.

Llawenhawn gyda'r eglwysi yn hyn gan weddio y bydd yr Arglwydd yn eu bendithio yn helaeth yn eu gweinidogaeth yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd nesaf. Bydd adroddiad llawn o'r cyfarfod sefydlu yn ymddangos yn fuan ar ddalennau'r *Tyst*.

## Penderfyniadau

Bydd y penderfyniadau canlynol yn cael eu cynnig yng nghyfarfodydd yr Undeb eleni.



### 1. Cydnabyddiaeth y Weinidogaeth Achlysurol

Yr ydym fel aelodau Cyfundeb Annibynwyr Meirion yn galw ar Undeb yr Annibynwyr Cymraeg i gychwyn trafodaeth gyda'r enwadau anghydfurfiol eraill i geisio cysoni cydnabyddiaeth y Sul i weinidogion, pregethwyr lleig a myfyrwyr, gan gynnwys oedfaon digidol.

Cynigydd: Mr Ian Lloyd Hughes  
Eilydd: Mrs Bethan Davies Jones  
Cyflwynir y cynnig ar ran Cyfundeb Meirion

### 2. Apêl Arbennig Cymorth Cristnogol

Cynigir ein bod, fel Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, yn lansio apêl ariannol arbennig yn ein cyfarfodydd blynyddol yn 2023, a'n bod yn trafod gyda Chymorth Cristnogol yn y cyfamser i weld pa fath apêl a fyddai'n gymwys i ennyn ein cefnogaeth.

Cynigydd: Mr Emlyn Davies  
Eilydd: Mr Rhodri-Gwynn Jones  
Cyflwynir y cynnig ar ran yr Adran Dinasyddiaeth Gristnogol

### 3. Cyfiawnder hinsawdd yng nghyswllt 'colled a difrod'

Cyflwyniad: Mae'r gwrthdaro yn Wcráin wedi mynd â sylw'r byd dros y misoedd diwethaf, ac mae'r ymateb gan ein heglwysi a'n cymunedau wedi bod yn llethol. Un canlyniad i'r ymladd yno yw bod prisiau grawn wedi codi, gan fod Wcráin yn wlad sy'n cynhyrchu cymaint o rawn ar gyfer y byd. Wrth gwrs, bydd llawer o wledydd cyfoethog yn gallu ymdopi gyda'r prisiau uwch, ond i'r gwledydd tlawd mae'n fater gwahanol. Mae'r byd yn cynhyrchu mwy o fwyd nag erioed yn hanes y ddynoliaeth, ond mae bron i 700 miliwn o bobl yn mynd i'r gwely heb ddigon o fwyd, a mwy na 40 miliwn yn agos i newyn. Yn llawer o'r gwledydd y mai Cymorth Cristnogol yn gweithio ynddyn nhw – Afghanistan, Ethiopia, Kenya, De Sudan, Haiti, Burkina Faso – mae hi eisoes yn anodd cynhyrchu eu bwyd eu hunain oherwydd y newid yn yr hinsawdd, a bydd prisiau uwch yn ychwanegu at yr argyfwng. Cartrefi wedi'u colli oherwydd lefelau dŵr yn codi, tir ffermio yn troi yn

anialwch, seiclonau eithafol a thanau gwyllt yn dinistrio'r tir, mae'r colledion a difrod sydd yn cael ei brofi gan gymunedau weithiau yn amhosib adfer ohonyn nhw. Mae'r colledion yn amhosib ennill yn ôl, a'r difrod yn fawr – yn gadael cymunedau heb ddim ac yn gorfodi pobl i adael eu cartrefi ac i fynd heb ddigon o fwyd. Mae ymgyrch CC yn galw ar y rai sydd yn gyfrifol am yr argyfwng hinsawdd (gwledydd cyfoethog, cwmnïau tanwydd ffosil ayb) i dalu am y golled a'r difrod sydd yn effeithio fwyaf ar bobl dlotaf y byd. Mae hyn yn fater o gyfiawnder. Mae'n hanfodol bod yr eglwysi yn codi eu llais ynglŷn â'r mater hwn.

Yr ydym yn cynnig ein bod ni fel:

- 1) Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, yn cefnogi, ond hefyd yn annog cyfundebau, yr eglwysi ac unigolion i gefnogi ymgyrch Cymorth Cristnogol, 'Colled a Difrod', e.e. galw ar Lywodraeth Prydain:
  - i bwysio am greu cronfa ryngwladol newydd yn 2022 ar gyfer 'colled a difrod' mewn perthynas â'r hinsawdd
  - i berswadio gwledydd eraill i gefnogi cronfa 'colled a difrod'
  - i crhau bod yr arian sydd yn y gronfa hon, yn cyrraedd y cymunedau tlotaf a'r mwyaf bregus.
- 2) Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn cymryd rhan a hefyd yn annog cyfundebau, yr eglwysi ac unigolion i gymryd rhan mewn gweithgaredd trafod Cyfiawnder Hinsawdd ynghylch yr argyfwng hinsawdd, a'r hyn sydd angen inni wneud i weld ein heglwysi a'n cymunedau yn gweithredu dros y degawd allweddol yma, gan ddefnyddio pecyn trafod Cymorth Cristnogol a bwydo ymateb 'nôl i Cymorth Cristnogol o fewn y 6 mis nesaf.
- 3) Undeb yr Annibynwyr Cymraeg hefyd yn annog eglwysi ac ysgolion Sul fel gweithgaredd pob oed, i ymateb i gynllun dylunio Cymorth Cristnogol 'Llythyrau Dros y Greadigaeth' ac i rannu hynny gyda'r gymuned.

Cynigydd: Parchg Tom T. Defis  
Eilydd: Parchg Guto Prys ap Gwynfor  
Cyflwynir y cynnig ar ran Cyfundeb Gorrlewin Caerfyrddin

### 4. Llunio cyfreithiau a pholisïau gan Lywodraeth Prydain

Mae Cynhadledd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn hynod annifyr gyda'r cynnydd amlwg mewn cyfreithiau a pholisïau anoddefgar sydd bellach yn cael eu cynnig a'u trafod yn Senedd y Deyrnas Unedig, a'u gweithredu gan Lywodraeth

Prydain. Mae amryw o'r deddfau a'r polisiau hyn yn wrthun i draddodiadau goddefgar a rhyddfrydol y wladwriaeth. Rydym yn pryderu bod iawnderau a hawliau dynol yn cael eu tansilio, a bod hawliau gweithwyr yn cael eu peryglu. Ceir enghreifftiau diweddar yn y ddeddf a basiwyd yn 2022 ar Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd sy'n cyfyngu ar yr hawl i wrthdystio'n heddychlon, a hefyd ar ymgais cyson i atal ceiswyr lloches rhag hawlio statws fel ffoaduriaid oddi fewn i'r Deyrnas Unedig. Ychwanegwyd at hyn yn ddiweddar gyda dechrau alltudio ceiswyr lloches i'w prosesu yn Rwanda.

Fel Undeb o eglwysi Cristnogol a dilynwyr Iesu Grist, safwn yn gadarn dros werthoedd efengyl y Deyrnas. Galwn, felly, ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau bod pob polisi a deddf yn gosod buddiannau pobl anghenus y byd yn gyntaf, a bod hawl gan drigolion Prydain i brotestio yn agored yn cael ei amddiffyn i'r eithaf. Galwn ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau na fydd unrhyw ymgais gan y wladwriaeth i ddirywio cyfundrefnau hawliau dynol na hawliau gweithwyr oddi fewn i'r Deyrnas Unedig.

Cynigydd: Parchg Aled D. Jones  
Eilydd: Gwynn Bowyer  
Cyflwynir y cynnig ar ran Cyfundeb Gorrlewin Caerfyrddin

## Coleg yr Annibynwyr Cymraeg Cwrs yr Haf

**Pobl y Ffordd ar dir Cymru**  
Agweddau ar Hanes yr Eglwys

**7 o'r gloch, nos Fawrth 5, 12**  
**ac 19 Gorffennaf**

ALED JONES, Cyfarwyddwr a  
Chydylynydd Hyfforddi'r Coleg

**Croeso cynnes iawn i bawb**

**Bydd pob cwrs ar-lein eleni**

Manylion pellach a dolenni Zoom  
oddi wrth  
parch.aled@yahoo.co.uk

## Ffrwd fyw

Darlledir ffrwd fyw o gyfarfodydd blynyddol Undeb yr Annibynwyr 2022. Ewch i wefan annibynwyr.cymru i wylio.

## Cytûn yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron

Cofiwch alw i mewn ym Mhabell yr Eglwysi eleni os byddwch yn mynd i gyfeiriad Tregaron ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol, a gynhelir o ddydd Sadwrn, 30 Gorffennaf, tan ddydd Sadwrn, 6 Awst.

Byddwn ar agor bob dydd rhwng 9.00 a 5.30, ac rydyn ni'n edrych ymlaen i'ch croesawu.

Ymhlith yr atyniadau yno fe fydd:

- paned a theisen gri (a diod oer efo bisgedi i'r plant)
- oedfa fer bob dydd am 11 o'r gloch o dan ofal yr eglwysi lleol
- digwyddiad byw bob dydd am 2 o'r gloch
- gweithgaredd i blant drwy gydol y dydd
- gorsaf weddi a myfyrdod i oedolion
- arddangosfa gan Gymorth Cristnogol yn y stondin drws nesaf i Babell yr Eglwysi
- dewis eang o'r llyfrau Cristnogol diweddaraf
- cyfle am sgwrs a seibiant o fwrlwm y maes
- croeso cynnes i bawb.

Cadwch olwg hefyd am yr ardd fyfyrdod, a fydd wedi ei gosod yn ardal y lle bwyd, o dan nawdd Cymdeithas y Beibl. Mae hon yn ardd sydd wedi ei chludo yno o Sioe Flodau Chelsea, ac yn fan ar gyfer encil a myfyrdod. Trwy glicio ar god QR ar eich ffôn symudol, mae cyfle i wrando ar fyfyrdod yn y Gymraeg, yn canolbwyntio ar Salm 23.

### Yr oedfa 'nôl yn y Pafiliwn eleni

Yn ogystal â phresenoldeb o fewn y stondin, cofiwch hefyd am yr oedfa a gynhelir yn y Pafiliwn am 9.00 y bore ar ddydd Sul, Gorffennaf 31ain. Bydd yr oedfa o dan arweiniad aelodau a chyfeillion o'r eglwysi lleol, yn blant ac oedolion. Bydd thema'r oedfa yn dilyn thema'r Eisteddfod, sef 'Dadeni' ac yn olrhain hanes Dewi Sant, mynachod Ystrad-fflur, Daniel Rowland a'r heddychwyr o Dregaron, Henry Richard, gan gofio am yr angen am heddwch yn ein byd ar hyn o bryd. Cyflwynir neges fer gan D. Densil Morgan. Noder y bydd angen prynu Tocyn Maes er mwyn cael mynediad i'r oedfa, felly dylid un ai brynu tocyn ymlaen llaw o wefan yr Eisteddfod, neu dalu wrth gyrraedd y maes.

### Cymanfa Ganu'r Eisteddfod

Cynhelir y Gymanfa Ganu hefyd ar yr un Sul, sef 31 Gorffennaf, a bydd honno'n dechrau am 7 o'r gloch eleni, awr ynghynt nag arfer.

Mae modd prynu tocyn i'r Gymanfa hefyd o wefan yr Eisteddfod o 24 Mehefin ymlaen.

Arweinydd y Gymanfa fydd Delyth Hopkins Evans, gydag Iestyn Evans yn cyfeilio ar yr organ.

Bydd Côr y Gymanfa yn perfformio 'Dyn a aned o wraig' gan D. Christmas Williams.

Yr emynau a fydd yn cael eu canu eleni yw:

Tôn	Geiriau
Aberystwyth	Iesu, cyfaill f'enaid
Bro Eleri	Ysbryd graslon, gad i mi
Builth	Rhagluniaeth fawr y nef
Côr Caersalem	O ganu bendigedig
Cymod	Caed trefn i faddau pechod
Daeth Iesu i'm calon i fyw	Mae dyddiau llawenydd gerllaw
Llanbadarn	Ti yw'r Un sy'n adnewyddu
Llwynbedw	Ysbryd y gwirionedd, tyred
Pant-y-fedwen	Tydi a wnaeth y wyrth
Penlan	I Dduw y dechreuadau
Pen-parc	Ai am fy meiau i
Preseli	Y mae Duw yn neffro'r gwanwyn
Rheidol	Cofia'n gwlad, benllywydd tirion
Rhosymedre	O nefol addfwyn Oen
Trysor y Crud	Pan anwyd Crist ym Methlehem dref

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Aled Davies: 07894580192 / [aleddavies@cytun.cymru](mailto:aleddavies@cytun.cymru)



## Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru yn edrych yn ôl ar y flwyddyn – ac ymlaen i'r dyfodol

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor ar 24 Mai 2022 yn rhithiol drwy gyfrwng Zoom. Dechreuwyd gyda gair o groeso a chafwyd defosiwn byr gan y Llywydd, y Parchedig Simon Walkling. Yn ei fyfyrddod soniodd am yr undeb trefniadol organig – yr eglwys unedig a'r angen am ostyngeddwydd yn ein bywyd eciwmenaidd.

Y prif bwynt oedd angen sylw o'r cofnodion oedd ymateb i ddogfen ddrafft ar Weinidogaeth Bro. Gobeithir edrych ymlaen i'r dyfodol gyda chanolfannau a threfniant eciwmenaidd yn bodoli.

Cafwyd adroddiad gan y Llywydd am ei weithgareddau ers y cyfarfod diwethaf, gan nodieifod yn cynrychioli'r Eglwysi Rhyddion ar Fforwm Cymunedau Ffydd. Roedd wedi mynychu gwasanaeth gorseddu'r Parchedig John Lomas yn Esgob Abertawe ac Aberhonddu, a chynrychiolwyd y Cyngor gan Rheinalt Thomas yng ngwasaneth gorseddu'r Gwir Barchedig Andrew John fel Archesgob Cymru yng Nghadeirlan Bangor. Mynegodd y Llywydd ei ddiolchgarwch am y cydweithio rhwng y Cyngor a Cytûn, a chafwyd adroddiad gan Gethin Rhys ar waith Cytûn. Tynnodd sylw at dri pheth o ddi-ddordeb:

- i) cynhadledd ar-lein EcoEglwys ar 30 Mehefin;
- ii) mae Cadw a rhai enwadau bellach yn cydweithio ar natur hanesyddol henebion Cymru dan arweiniad Susan

Fielding. Mae'n ofid fod hanes eglwysi'n mynd ar goll, ac felly cyn eu dymchwel neu newid eu gwedd byddai'n dda cael lluniau ffotograffig ohonynt;

- iii) mae trefniadau ar y gweill rhwng ysgrifenyddion yr enwadau i gyfarfod ag Esgob Rowan Williams a Laura McAllister o'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru.

Mae'r grŵp hyfforddiant, dan gadeiryddiaeth yr Athro Eryl Wynn Davies, yn cyfarfod yn rheolaidd. Mynegwyd consŷrn am achredu hyfforddiant diwinyddol Cymraeg.

Derbyniwyd adroddiad addysg gan Vaughan Salisbury. Tynnodd ein sylw at Ddogfen Canllawiau Cwricwlwm i Gymru – Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Bydd cwricwlwm newydd yn cael ei gyflwyno mewn ysgolion cynradd ym mis Medi ac yn yr ysgolion uwchradd ym Medi 2023. Cafwyd trafodaethau trwyadl ar ofidiau amlwg nad oes digon o adnoddau Cymraeg i gefnogi athrawon gyda'r maes llafur newydd. Gwelwyd bod cyfle i eglwysi i fanteisio ar gyfle i agor eu drysau i esbonio'r gwahaniaethau rhwng yr enwadau. Awgrymwyd creu adnodd digidol o'r papur 'Cysylltu Eglwysi ac Ysgolion', a fyddai'n ddefnyddiol i athrawon yn y Gymraeg.

Yn ei adroddiad, dywedodd y Parch. Aled Davies fod cyfle eleni i ailgysylltu â'r cyhoedd eto trwy fod yn bresennol



Simon Walkling



Helen Cameron

yn Eisteddfod yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol a Sioe Fawr Llanellwedd. Bydd Cyngor yr Ysgolion Sul yn trefnu taith o gwmpas Cymru o ganol Gorffennaf hyd fis Medi er mwyn cael cyfle i gwrdd ag arweinwyr eglwysi.

Roedd yr adroddiadau o'r enwadau'n gymysg o lawenydd a thristwch. Roedd rhai eglwysi'n galonogol eu hagwedd ac wedi aildechrau eu gwasanaethau yn llawn brwdfrydedd. Serch hynny, roedd yn amlwg bod y pandemig heb achosi anawsterau, gyda rhai capeli heb ailgwrdd ac eraill wedi cau drysau. Bu eglwysi'n cynnal gwasanaethau yn rhithiol, gan ddarganfod ffyrdd newydd o gyhoeddi neges yr Efengyl.

Derbyniwyd cyfarchion gan Grŵp Eglwysi Rhyddion Lloegr a gwerthfawrogwyd y cydweithio rhwng y ddau Gyngor. Mynegodd y Llywydd newydd, y Parchedig Helen Cameron, ei hawydd i ddod i Gymru ac i'n cyfarfod nesaf.

*Helen M Jones  
Ysgrifennydd*

## Gwibdaith Cymdeithas Gweinidogion Bro'r Preseli

Dydd Mawrth, 14 Mehefin, ar ddiwrnod braf o haf cawsom daith bleserus i Abergwaun ac i ardal Pen-caer yng ngogledd sir Benfro dan arweiniad y Parch. Wyn Vittle, oedd yn ei elfen yn ein tywys ar daith o gwmpas ardal ei gynefin. Rhannodd hanesion difyr â ni am ei gefndir a'i blentyndod yn yr ardal.

Cychwynasom yng Nghaerfyrddin, ac wedi teithio ar draws gwlad i Foncath yn sir Benfro cawsom goffi yn nhafarn Trewern yn Nanhyfer. Yna, ymlaen i Abergwaun, a gweld tapestri enwog Glaniad y Ffrancod yn Neuadd y Dref a chanolfan Ein Hanes y drws nesaf. Wedi cinio ar y ffrynt wrth y môr yn Wdig, aethom ymlaen i ymweld â hen eglwys geltaidd Llanwnda, eglwys sy'n dyddio o'r chweched ganrif, gan sylwi ar y ffenestr i'r gwahangleifion, oedd yn medru edrych i mewn o'r tu allan ar yr allor, yn ogystal â gweld yr hen groesau gwahanol a'r ddwy gloch: un i gofio am Sant Padrig ar ochr y môr, a'r llall i Dewi Sant, ar ochr y tir. A gweld hefyd yr hen gartref a'r aelwyd lle



maged Wyn, cartref braf, ac mewn dyddiau a fu oedd yn hen ficerdy i ficeriaid Eglwys Llanwnda.

Yna aethom ymlaen i fferm Bristgarn i weld y cloc hanesyddol â thwll y bwled yn ei ddrws oherwydd ymosodiad y Ffrancod. Diolch i Raymond a Valerie Llewelyn am eu croeso ac am agor eu cartref i ymwelwyr dros y blynyddoedd. Yn ein blaenau wedyn i fwynhau'r arfordir a golygfa o oleudy Strwmwbl cyn mynd heibio ochr ogleddol y Garn Fawr, ac yna oedi uwchben y 'dwshwn' ym Mhwllleri wrth garreg goffa'r bardd Dewi Emrys gan wrando ar y Parch. Beti-Wyn James yn darllen, yn nhafodiaith sir Benfro, ddetholiad o'r gerdd 'Pwllleri' – a'i chlo trawiadol: 'A thina'r meddilie sy'n dwad ichi / pan fo chi'n ishte uwchben Pwllleri'.

Egwyl bach wedyn am de, hufen iâ, neu deisen yng ngaffi Melin Tregwynt; browsio

yn y siop, ac mor falch oeddem o ddeall bod y gweithwyr, drwy'r ymddiriedolaeth newydd a sefydlwyd, bellach yn ei berchen ac yn ei redeg. Teithiasom yn ôl wedyn i westy Llwyngwair ac wedi cael cyfarfod busnes i wneud y trefniadau ar gyfer y tymor wedi'r haf, mwynhau swper cynnar blasus yng nghwmni hwyliog ein gilydd. Diolch i Eurig Williams, gyrrwr y bws mini ar ran cwmni Brodyr Williams, Felin-gwm, am ein cludo'n ddiogel bob cam, ac am gwmni hwyliog a chymdeithas gynnes ein gilydd ar hyd y dydd. Roedd ein diolch yn fawr i'r Parch. Tom Defis am gynorthwyo gyda'r trefniadau ac i Wyn Vittle am ein tywys ar daith mor odidog yn ardal ei febyd. 'Diwrnod i'r Brenin' yn wir, a chlod i'n Creawdwr am wlad ac amgylchfyd mor hardd.

*Emyr Gwyn Evans  
Ysgrifennydd*

## O'r Beibl: 6

Cyfes ar gyfer astudiaeth  
bersonol neu fel grŵp

### Gair o Genesis

“Beth sy'n bod gyda'r byd?”

Darllen: Genesis 2:8–3:7

Yn ddiamau, mae'r cwestiwn uchod yn un sydd ar feddyliau nifer o bobl heddiw. Wrth i'r ddynoliaeth wynebu pandemig rhyngwladol, cynhesu byd-eang a rhyfel yn Wcráin, mae'n amhosibl peidio â dod i'r casgliad fod yna ryw beth difrifol yn bod gyda'r byd. Ond *beth* sy'n bod gyda'r byd? Beth yw'r broblem fawr?

I'r Comiwnydd, problem fawr y byd yw'r economi. I'r ymgyrchydd cymdeithasol, anghydraddoldeb yw'r broblem waelodol. I eraill eto, trais a rhyfel yw problem fwyaf sylfaenol y ddynoliaeth. Yn wir, does dim prinder atebion yn cael eu cynnig i'r cwestiwn oesol hwn.

Mae'r Beibl, er hynny, yn cynnig ateb llawnach: ateb sy'n fwy cynhwysfawr a chyflawn na'r rhai uchod. Beth felly yw'r ateb hwn?

Esbonia'r Beibl mai symptomau o broblem lawer dyfnach yw'r pethau a restrir uchod. Symptomau erchyll yw trais, rhyfel, llygredd, hiliaeth, anghyfartaledd o broblem ddifrifol sydd gennym fel pobl. Problem y galon ddynol. Mewn geiriau eraill, y rheswm pam fod pobl yn rhyfela yn erbyn ei gilydd, yn llygru'r amgylchedd, yn trin ei gilydd mewn ffordd mor warthus ydy fod gan y galon ddynol broblem enfawr.

Dyma'n union beth mae Iesu'n ei ddweud yn Mathew 15. Yn oes Iesu, roedd y Phariseaid yn dysgu fod pethau allanol (e.e. bwyd) yn halogi rhywun a'u gwneud nhw'n aflan. Roedd Iesu'n anghytuno. Wrth ymateb iddynt, dywedodd y geiriau canlynol:



“Oni welwch fod popeth sy'n mynd i mewn i'r genau yn mynd i'r cylla ac yn cael ei yrru allan i'r geudy? Ond y mae'r pethau sy'n dod allan o'r genau yn dod o'r galon, a dyna'r pethau sy'n halogi rhywun. Oherwydd o'r galon y daw cynllunio drygionus, llofruddio, godinebu, puteinio, lladrata, camdystiolaethu, a chablu. Dyma'r pethau sy'n halogi rhywun; ond bwyta â dwylo heb eu golchi, nid yw hynny'n halogi neb” (Mathew 15:17–20).

Mae gan y galon ddynol broblem ac mae problemau'r byd yn deillio o'r broblem sylfaenol hon.

Beth felly yw problem y galon? Problem y galon ddynol yw ein bod wedi gwrthryfela yn erbyn Duw gan feddwl ein bod ni'n gwybod yn well nag ef a'n bod yn gallu byw heb wrando arno a heb ei adnabod. Gair y Beibl am ein gwrthryfel yw 'pechod'.

Mae llyfr Genesis yn egluro wrthym pa mor ddifrifol yw'r cyflwr hwn. Ar ôl i Dduw greu Adda ac Efa, fe'u gosododd yng Ngardd Eden. Yno, darparodd yn helaeth ar eu cyfer. Dywedodd Duw y câi Adda ac Efa “fwyta'n rhydd o bob coeden yn yr ardd” (Genesis 2:16). Yr unig beth wnaeth Duw orchymyn iddynt beidio â'i wneud oedd hyn: “ni chei fwyta o bren gwybodaeth da a drwg, oherwydd y dydd y bwytei ohono ef, byddi'n sicr o farw” (Genesis 2:17).

Trasiedi enfawr dynoliaeth yw mai dyma'n union a wnaethom. Pan ddaeth y sarff i gwestiynu geiriau Duw, bwytaodd Adda ac Efa ffrwyth y goeden. Nid gweithred fypmpwyol oedd hon, ond gwrthryfel agored yn erbyn ein Creawdwr. Trwy fwyta'r ffrwyth, roedd dynoliaeth yn tybio ei bod hi'n gwybod yn well na Duw ac yn gallu byw'n iawn hebdo. Ond doedd hynny ddim yn wir! Nid oedd gennym syniad sut i fyw ac nid oedd bywyd i'w gael y tu allan i'n perthynas â Duw. Canlyniad ein gweithred dorcalonnus oedd rhwygo ein perthynas gyda'n Creawdwr. Cwmpodd y ddynoliaeth i bechod a daeth dioddefaint a marwolaeth yn rhan o'n bywydau bob dydd.

Yn ddi-os, byth ers y Cwmp, mae'r galon ddynol wedi bod yr un mor wrthryfelgar, ystyfnig a phechadurus. Rydym yn byw mewn byd toredig gan ein bod yn byw mewn byd syrthiedig.

Newyddion da'r Beibl, fodd bynnag, ydy fod yr Arglwydd Iesu Grist wedi dod i'r byd nid yn unig i ddelio â symptomau ein pechod, ond i ddelio gyda'i wreiddyn, gyda'i ffynhonnell: ein calonnau. Bu farw ar y groes er mwyn talu'r pris yr ydym yn ei haeddu am ein beiau ac atgyfododd yn fyw ar y trydydd dydd. Mae Iesu'n fyw heddiw ac mae'n cynnig maddeuant a chalon newydd i bwy bynnag sy'n dod ato fe mewn ffydd: ‘Rhof iddynt galon i'm hadnabod, mai myfi yw'r ARGWLWYDD; a byddant yn bobl i mi, a minnau'n Dduw iddynt hwy. Byddant yn troi ataf fi â'u holl galon’ (Jeremeia 24:7).

Gwilym Tudur

#### Trafod ac ymateb:

- Trafodwch ganlyniadau pechod ac anufudd-dod i Dduw.
- A deimlwn fod gennym esboniad gwell ein hunain neu fel cymdeithas i'r cwestiwn: ‘Beth sy'n bod gyda'r byd?’
- ‘Rydym yn byw mewn byd toredig gan ein bod yn byw mewn byd syrthiedig.’ Beth sydd i'w wneud am hyn?

S4C

#### Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Sul, 3 Gorffennaf, am 7.30yh (ailddarlliedir am 11:30yb y Sul canlynol)

Yr wythnos yma, bydd Ryland yn ein tywys drwy rai o uchafbwyntiau'r gyfres bresennol o *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*. Fe gawn ni gyfle i ailfwynhau rhai o straeon y gyfres a chydganu rhai o'n hoff emynau.

Dyma gopi o [gylchlythyr Dechrau Canu, Dechrau Canmol](#) am fisoedd Mehefin a Gorffennaf.

BBC radio cymru

#### Caniadaeth y Cysegr

Sul, 3 Gorffennaf, am 7:30yb a 4.30yp

Cymanfa Eglwysi Cymraeg Canol Llundain – rhan 2: Rhys ab Owen yn cyflwyno detholiad o emynau o Gymanfa Eglwysi Cymraeg Canol Llundain.

#### Oedfa Radio Cymru

Sul, 3 Gorffennaf, am 12:00yp

Gwasanaeth dan ofal Cas Meurig, y Bala

I weld y cyhoeddiad digidol [Cenn@d](mailto:Cenn@d) yn llawn, dilynwch y ddolen hon: [www.cennad.cymru](http://www.cennad.cymru)

(Cyhoeddwr [Cenn@d](mailto:Cenn@d) ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteriaid Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

## Doniau Amrywiol

Bu'n braf cael cyfle i grwydro maes Eisteddfod yr Urdd yr wythnos ddiwethaf a gweld cymaint o wynebau cyfarwydd. Rwy'n ysgrifennu'r myfyrdod hwn ar fore dydd Iau a hyd yn hyn chlywais i ddim cwyno am draffig, ac ar y cyfan bu'r tywydd yn ddigon dymunol. Ond hyd yn oed os na fu i chi fentro ar y maes ger Dinbych, mae'n debyg bod nifer ohonoch wedi cael cip ar yr eisteddfod ar y teledu a sylweddoli bod trefn wahanol i'r cystadlu yn 2022. Yn hytrach na'r hen arferiad o gynnal rhagbrofion gyda dim ond y goreuon (yn nhyb y beirniaid!) yn cystadlu ar lwyfan y pafiliwn, eleni cafodd pawb oedd yn cystadlu gyfle i wneud hynny ar lwyfan un o'r tri phafiliwn swyddogol.

### Llawenydd a siom

Wn i ddim beth oedd y rheswm a roddwyd dros y newid ond gallaf ddechymygu bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd wrth eu boddau fod pawb o'r cystadleuwyr yn cael y fath gyfle. Does dim amheuaeth fod yna



densiwn oesol ynghlwm wrth gystadlu. Pwrpas cystadleuaeth yw gwahaniaethu rhwng y rhai sy'n ennill a'r rhai sydd ddim, ac felly'n anorfod bydd rhai ar ben eu digon tra bod eraill yn profi siom. Ac mae'n bwysig i ni gofio nad yw pawb yn meddu'r un doniau, nac ychwaith yn derbyn yr un lefel o hyfforddiant a chefnogaeth.

### Annwyl gan Dduw

Felly wrth ystyried y cwestiynau mawr hyn ynglŷn â chystadlu digwyddais ddarllen rhan gyntaf llythyr Paul at y Rhufeiniaid: 'Yr wyf yn cyfarch pawb yn Rhufain sydd yn annwyl gan Dduw, a

thrwyl ei alwad ef yn saint. Gras a thangnefedd i chwi oddi wrth Dduw ein Tad a'r Arglwydd Iesu Grist.' (Rhufeiniaid 1:7) Roedd Paul yn eiddgar i'r holl Gristnogion wybod eu bod yn annwyl gan Dduw. Dyma neges hyfryd i Gristnogion cryf a gwan, hen ac ifanc, gwryw a benyw, boed yn medru canu fel eos neu'n methu canu nodyn!

### Aelodau

Yn ystod Eisteddfod yr Urdd gwelwyd amrywiaeth helaeth o ddoniau'n cael eu hamlygu ar y llwyfannau, ond roedd un peth yn gyffredin i bob cystadleuydd – roeddent i gyd yn perthyn, yn aelodau o'r Urdd. Oherwydd yr hyn wnaeth Iesu trwy ei fywyd di-fai, ei farw aberthol a'i atgyfodiad gogoneddus, yn ôl y Beibl os ydym ni'n perthyn i Grist trwy ffydd rydym yn saint, yn bobl arbennig i Dduw. Ac mae gan bawb o'r saint eu doniau, eu cymeriad a'u diddordebau gwahanol wrth rannu'r un gobaith, gan ein bod wedi'n prynu i ryddid 'â gwaed gwerthfawr Un oedd fel oen di-fai a di-nam, sef Crist.' (1 Pedr 1:19)

Diolch i Dduw am yr amrywiaeth ymhlith Ei saint, a diolch am yr undod sydd rhyngom yn Iesu Grist!

Rhodri Glyn

(allan o *Llais Aled*, 5 Mehefin 2022)

## Bore coffi

Yn ddiweddar cynhaliwyd bore coffi am y tro cyntaf yn Hope-Siloh ers cyn y clo cyntaf. Fe'n gorfodwyd gan reolau llym cyfnod Covid i ymatal rhag cynnal gweithgareddau cymdeithasol. Ac fel dinasyddion cydwybodol, fe wnaethom ninnau ufuddhau i ddeddf gwlad! Sawl gwaith yn ystod y ddwy flynedd bu i rai ohonom godi'r ffôn ar fore Gwener cyntaf y mis i gael sgwrs gyda dishgled o goffi yn ein llaw, a hiraethu am 'yr hen ddyddie' yn y festri!

### Ailgydio

Pleser pur oedd agor drysau'r festri fawr, fore Gwener cyntaf mis Mai 2022, ar gyfer ein bore coffi misol cyntaf ers cryn amser. Er nad oedd cynifer yno â'r arfer gynt, roedd digon o aelodau a ffrindiau i fwynhau'r wledd o deisennau a'r sgwrs. Cafodd Iris a Percy glap arbennig wrth iddynt gerdded i mewn, ac felly hefyd Undeg ar ôl ei llawdriniaeth ddiweddar.

Cynhelir y bore coffi nesaf ar ddechrau mis Mehefin. Da chi, dewch os gallwch!

Allan o Cwllwm 47, Mai 2022, cyfnodolyn eglwys Hope-Siloh



## Gwyl y Sul Sbesial



Siaradwr Gwadd:

**Huw Edwards**

Cadeirydd:

**Parch Tom Evans**

gyda Band y Priordy, aelodau ysgolion Sul Peniel a Siloam  
Bydd gweithgarwch i'r ieuencid a'r plant



Bydd cyfle i brynu te, coffi, cacennau ac ati yn y caffi wedyn

**Croeso cynnes i bawb  
Mynd i Undeb 150? Beth am aros ymlaen?**

Trefnir gan Annibynwyr Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin

# Golygyddol

## Rhannu'r Newyddion Da

Edrychwn ymlaen yn fawr i fod yn rhan o ddatliadau 150 mlwyddiant Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn y cyfarfodydd blynyddol yng Nghaerfyrddin ar ddechrau mis Gorffennaf. Byddwn yn dathlu bywyd a gwaith yr Undeb am ganrif a hanner ac yn diolch am y dystiolaeth loyw fu i'r Arglwydd Iesu, ei Efengyl a'i deyrnas yn ystod y cyfnod hwnnw. Hefyd byddwn yn clywed am weledigaeth y rhai hynny aeth ati i sefydlu'r Undeb, ym 1872, pobl fel John Thomas a Gwilym Hiraethog.

Rydym fel Cristnogion bob amser yn sefyll ar ysgwyddau'r rhai a'n rhagflaenodd ac yn medi o'r hyn a blannwyd ganddynt. Rydym o ganlyniad yn ddiolchgar i'r rhai hynny a lafuriodd dros Deyrnas Dduw a'r newyddion da trwy gydol hanes yr Undeb. (Gw. Ioan 4: 38) Ond yr oedd hynny'n wir hefyd am y bobl lew a sefydlodd Undeb yr Annibynwyr. Roeddent hwy yn medi o lafur caled y rhai hynny a'u rhagflaenodd.

Ar hyn o bryd y mae gennyf ddi-ddordeb mawr yn y bobl hynny oedd hybu Cristnogaeth yng Nghymru ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Y rheswm am hyn yw mai hwy blannodd yr hadau ar gyfer llwyddiant mawr Ymneilltuaeth yn y 19eg ganrif.

### Dau gymeriad

Yn ystod y mis diwethaf rwyf wedi darllen cofiannau dau o weinidogion yr Annibynwyr a

anwyd ar gychwyn y 19eg ganrif sef John Davies, Caerdydd 1823–74, a William Ambrose (Emrys) 1813–73, Porthmadog. Roeddent yn ddau gymeriad pur wahanol. Ymfalchiiai Emrys yn ei



William Ambrose

dras fel Cymro ac yr oedd John Davies yn credu fod dyfodol Cristnogaeth yng Nghymru trwy gyfrwng y Saesneg felly bu'n un o'r rhai gychwynnodd yr 'English Cause' yng Nghaerdydd. Ond er y gwahaniaethau oedd rhyngddynt, roedd un peth yn nodweddu'r ddau ohonynt sef eu brwdfrydedd heintus i rannu'r newyddion da am Iesu Grist a gweld y dystiolaeth Gristnogol yn ffynnu. Sefydlodd JD eglwys newydd yn Hannah Street, Bae Caerdydd, gyda dim ond 14

o aelodau. Bu hefyd yn allweddol yn sefydlu eglwys annibynnol ym Mhenarth, Star Street, Sblot a Grangetown. Pan wahoddwyd Emrys i fod yn weinidog ar Salem, Porthmadog ym 1837 dim ond 19 o aelodau roddodd alwad iddo. Fe aeth ati yn ystod y blynyddoedd dilynol yn llawn egni, a than fendith yr Ysbryd Glân i adeiladu'r gynulleidfa. Ond hefyd bu'n weithgar yn sefydlu eglwys newydd ym Mhenmorfa, Morfa Bychan, Beddgelert, Penrhyndeudraeth a Borth-y-gest.

Roedd y ddau gymeriad uchod yn ddynion enillgar oedd am dywys pobl newydd i ffydd yn yr Arglwydd Iesu gan beri llwyddiant i'w waith. Nid peth hawdd oedd hyn oherwydd roedd heriau ysbrydol, cymdeithasol, diwylliannol ac ariannol i'w wynebu, ond trwy ffydd, menter a dyfalbarhad sefydlwyd eglwys newydd.

### Heddiw

Rydym ni yn byw ar ddiwedd cyfnod o lwyddiant Cristnogol rhyfeddol yng Nghymru. Clywsom hyd at syrffed am ogioniannau'r gorffennol, capeli gorwch, diwygiadau, llwyddiannau, cynulleidfaoedd mawrion, gweithgareddau dirifedi, cymanfaoedd pregethu a chanu anghymharol. Nid ydym am wneud yn fach o'n gwaddol Cristnogol ond ni all yr eglwys yn 2022 fyw ar hynny. Nawr rhaid cael gweledigaeth newydd i genhadu ac efengylu a than gwirioneddol yn ein calonnau i rannu'r newyddion da am Iesu gyda'n cyd-Gymry. Efallai yn y dyfodol agos y bydd galw arnom i sefydlu cynulleidfaoedd newydd ac mae'n rhaid bod yn barod am hynny. Cofiw'n bydd Cristnogion Cymru ar ddiwedd yr 20fed ganrif yn sefyll ar ein hysgwyddau ni ac yn medi o'n llafur..

### Arolwg

Gwnaeth *Reuters Institute Digital News Report* arolwg yn ddiweddar o 94 mil o bobl ynglŷn â'u defnydd o'r cyfryngau.

Un canfyddiad wnaed ganddynt oedd bod nifer fawr o bobl ifanc (18–24 oed) yn cefnu ar ffynonellau

newyddion traddodiadol gan ddefnyddio Instagram a TikTok. Un rheswm am hyn oedd bod pobl ifanc wedi diflasu yn llwyr ar y newyddion drwg a negyddol oedd yn cael ei gyflwyno ar y cyfryngau traddodiadol ac yn chwilio am newyddion da a chadarnhaol.

Onid yw hwn yn gyfle arbennig inni fel Cristnogion. Yr hyn sydd yn ein meddiant ni yw newyddion da o lawenydd mawr. Newyddion da am obaith diddarfod, am

# Affganistan

Brawychus oedd clywed y newyddion trist am y daeargryn mawr sydd wedi taro Affganistan. Ymddengys bod miloedd wedi eu lladd a llawer o bentrefi wedi eu dinistrio yn llwyr oherwydd ansawdd gwael yr adeiladau. Gwlad sydd ymhlith y tlotaf yn y byd erbyn hyn.

Cyn y daeargryn roedd yr economi wedi dadfeilio bron yn llwyr ac nid oes arian ar gael i dalu cyflogau nac i brynu bwyd. Ataliwyd cymorth dyngarol o'r Gorllewin oherwydd yr ymddengys fod llywodraeth y Taliban yn cefnogi terfysgwyr ac yn tanseilio hawliau dynol sylfaenol eu deiliaid yn enwedig hawliau menywod. Canlyniad hyn yw bod miliynau o bobl Affganistan yn wynebu diffyg maeth affwysol a newyn. Nid oes gan lywodraeth y Taliban yr adnoddau na'r isadeiledd i ymdopi gyda'r argyfwng.

Y cyfan y gallwn ni ei wneud ar hyn o bryd yw cyfrannu arian ac adnoddau pan fydd cyfle i wneud hynny a gweddio am gynhaliath iddynt ac y bydd newid buan ar y sefyllfa wleidyddol ac economaidd.



Dduw cyfiawn sy'n ein caru ac am fyw mewn perthynas gyda ni. Newyddion da am Dduw sy'n malio am ddynoliaeth ac wedi trefnu ffordd i'n hadfer a'n cadw trwy ei Fab Iesu. Pan fo un drws yn cau y mae Duw yn agor drws arall er mwyn i ni gyrraedd pobl ifanc a phobl yn gyffredinol sy'n chwilio am newyddion da.

**Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:**

Y Parchg Ddr Alun Tudur  
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,  
Caerdydd, CF23 9BS  
Ffôn: 02920 490582  
E-bost: aluntudur@btinternet.com

**Golygyddion**

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones  
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,  
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,  
LL49 9UE  
Ffôn: 01766 513138  
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny  
Porth Angel, 26 Teras Picton  
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX  
Ffôn: 01267 232577 /  
0781 751 9039  
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

**Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:**

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc  
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe  
ABERTAWA SA7 0AJ  
Ffôn: 01792 795888  
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

**Dalier Sylw!**

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan  
Bwyllgor Llywio'r Adran  
Gydenwadol ac nid gan Undeb yr  
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a  
wneio Golygyddion Y Tyst ddim â  
chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Rhaglen Y Cyfarfodydd Blynyddol Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin 2022

Oni nodir yn wahanol cynhelir y cyfarfodydd yng Nghanolfan Halliwell,  
ar gampws Coleg Prifysgol y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin SA31 3EP



## DYDD IAU, 7 Gorffennaf

- 1.30 CYNHADLEDD 1**  
Cadeirydd: Y Llywydd, Parchg Beti-Wyn James  
Defosiwn: Parchg Gethin Rhys
- 2.00** Ymddiheuriadau am absenoldeb  
Adroddiad Undeb Rhithiol 2021 (y Llyfr Gwyrdd)  
Croesawu/ethol Trysorydd newydd yr Undeb  
Croesawu Cyfarfodydd Blynyddol 2023  
i Gyfundeb Dwyrain Dinbych a Ffilin  
Eglwysi Dementia-gyfeillgar  
Economi Bywyd a Newid Hinsawdd
- 3.00** Te a chacen a chroeso
- 4.00–5.00** Cyfarfod Heddwch
- 5.30** Swper
- 7.30 CYFLWYNIAD** gan aelodau a chyfeillion eglwysi  
Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin.

## DYDD SADWRN, 9 Gorffennaf

- 9.30** Defosiwn: Parchg Tom Defis, Cadeirydd y Pwyllgor  
Lleol
- 9.40** Dathliad yr Undeb dan ofal Alun Lenny
- 11.00** Te/coffi
- 11.30 OEDFA'R LLYWYDD**  
Llywyddir gan Mr Dafydd Roberts,  
Cadeirydd y Cyngor  
Coffáu'r rhai a fu farw  
Gweddi: Parchg Rhodri Glyn Thomas  
Dymuno'n dda i weinidogion a ymddeolodd  
Croesawu gweinidogion newydd  
Cydnabod gwasanaeth Trysorydd yr Undeb
- ANERCHIAD Y LLYWYDD:**  
**Parchg Beti-Wyn James**
- 1.00** Cinio ac ymadael

## DYDD GWENER, 8 Gorffennaf

- 9.30 CYNHADLEDD 2**  
Cadeirydd: Y Llywydd, Parchg Beti-Wyn James  
Defosiwn: Parchg Gethin Rhys
- 10.00** Adroddiad y Trysorydd  
Adroddiad ar Fuddsoddion yr Undeb  
Adroddiad y Pwyllgor Gweinyddol  
Etholiadau:  
• 2 i wasanaethu ar y Cyngor am 3 blynedd  
• hyd at 3 i'r Pwyllgor Gweinyddol am 3 blynedd  
• cyfreithiwr ac archwiliwr am y flwyddyn
- 11.00** Te/coffi
- 11.30** Y Drysorfa Gynorthwyol  
Adroddiad y Cyngor a'i Adrannau  
Y Tyst
- 1.00** Cinio

## Dangosir cyflwyniadau Cwpan Denman yn ystod y cynadleddau

- 2.00 CYNHADLEDD 3**  
Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol  
Penderfyniadau  
Derbyn gweddi cofnodion y Llyfr Glas  
Penderfyniadau  
UFA
- 3.30** Te/coffi
- 4.00–5.00 'Yr olaf o win yr haf: Undeb yr Annibynwyr  
Cymraeg, 1972-2022'**  
**Darlith gan Parchg Ddr Geraint Tudur**
- 5.30** Swper
- 7.30 OEDFA O FAWL** Capel Heol Awst, Caerfyrddin  
Llywydd: Parchg Beti-Wyn James  
**Pregeth: Parchg Iwan Llewelyn Jones**